Natural Environment Research Council

# Datganiad Busnes Cyfrifol

Gorffennaf 2024

## EIN RÔL

**Mae NERC yn galluogi gwyddor amgylcheddol o'r radd flaenaf sy'n ein helpu i gynnal a manteisio ar ein hadnoddau naturiol, rhagfynegi ac ymateb i beryglon naturiol a deall newid amgylcheddol.** Rydym yn ariannu ymchwil ac arloesedd uchelgeisiol, ac yn darparu'r hyfforddiant, y sgiliau, a'r seilwaith sydd eu hangen ar y Deyrnas Unedig i aros ar flaen y gad ym maes gwyddor amgylcheddol.Mae ein hymchwil yn helpu cymdeithas i ddeall yr heriau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y mae'n eu hwynebu a dod o hyd i atebion.

Rydym yn gweithredu fel **eiriolwyr dros yr amgylchedd naturiol**, gan weithio'n agos mewn partneriaeth ag Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig (UKRI), cyllidwyr eraill, busnesau, y llywodraeth a'r cyhoedd.

Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â'n swyddogaethau gweithredol a chyflawni, gan gynnwys gweithgarwch Canolfannau NERC a gweithgarwch cydweithredol gyda'n partneriaid Galluogrwydd Cenedlaethol.

## EIN CYFRIFOLDEB

Mae gan NERC gyfrifoldeb i sicrhau buddion i gymdeithas ac i'r amgylchedd y tu hwnt i'n canlyniadau ymchwil. Mae'r datganiad hwn yn nodi ein hymrwymiadau i weithredu'n gyfrifol drwy ein model cyflawni gweithredol ar gyfer ymchwil ac ariannu ymchwil yn unol â **gwerthoedd UKRI** a **chynllun Cyflawni Strategol NERC**.

Mae'r egwyddor y dylem anelu at greu cyfraniad cadarnhaol yn treiddio drwy bob un o'n pileri ymrwymiad, sydd i'w gweld isod, gan lywio'r camau a gymerwn i **ychwanegu gwerth a sicrhau effaith**.

## EIN HYMRWYMIAD

Bydd NERC yn chwarae ei ran wrth fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n ein hwynebu – nid yn unig drwy'r ymchwil rydym yn ei alluogi ond hefyd yn y modd rydym yn gweithredu fel sefydliad. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau allweddol i'r canlynol:

- Cyrraedd allyriadau carbon gweithredol **Sero Net** erbyn 2040 yn unol â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol UKRI.
- Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant mewn ymchwil Gwyddor Amgylcheddol fel y nodir yng nghynllun **Amrywiaeth a Chynhwysiant** NERC.
- Ariannu a darparu **ymchwil, arloesedd a seilwaith o ansawdd uchel** mewn modd cyfrifol sy'n seiliedig ar lywodraethu da.

Mae'r datganiad hwn yn ddogfen fyw, bydd yn newid wrth i'n blaenoriaethau esblygu ac mewn ymateb i adborth. Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar y datganiad hwn yn flynyddol.

# Pileri Busnes Cyfrifol NERC

## YMCHWIL GYFRIFOL

Gweithio mewn partneriaeth i fabwysiadu arferion ymchwil cyfrifol a hyrwyddo ymddygiad ymchwil da.

## CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL

Gyrru ein heffaith gadarnhaol drwy adfer a gwella'r amgylchedd naturiol, darparu adnoddau mewn modd cyfrifol, lliniaru newid hinsawdd a meithrin gwytnwch i'n hinsawdd yn y dyfodol.

## CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

Cefnogi diwylliant cadarnhaol a chynhwysol ar gyfer staff a'r gymuned ehangach a chodi ymwybyddiaeth o'r manteision a gynigiwn i'r gymdeithas ehangach.

## PENDERFYNIADAU STRATEGOL CYFRIFOL

Gweithredu mewn ffordd dryloyw a theg ar draws ein harferion, gan ystyried y goblygiadau hirdymor i'n rhanddeiliaid a gweithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein gwerthoedd craidd.

## YMCHWIL GYFRIFOL

### UNIONDEB YMCHWIL
**1.1** Rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi uniondeb ymchwil ar draws ymchwil gwyddor amgylcheddol, gan annog diwylliant ymchwil cadarnhaol ac ansawdd gwyddonol uchel gan gymuned wyddonol y gellir ymddiried ynddi.

### MOESEG YMCHWIL
**1.2** Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil yn unol â safonau ymchwil moesegol cydnabyddedig, gan ddiogelu lles anifeiliaid, hawliau dynol ac adrodd yn dryloyw ac yn ddiduedd ar ganlyniadau.

### PARTNERIAETHAU AR GYFER YMCHWIL
**1.3** Rydym yn defnyddio ein gwaith gyda phartneriaid sy'n rhannu ein gwerthoedd i ysgogi arloesedd a chydweithrediad yn effeithiol yn y gymuned wyddonol i gynhyrchu canlyniadau ac effaith ymchwil gadarnhaol.

### DULL GWYDDONOL CYNALIADWY
**1.4** Byddwn yn parhau i hyrwyddo arferion cynaliadwy mewn labordai a gwaith maes ac yn annog ymchwilwyr i ailystyried dulliau gwyddonol er mwyn lleihau y niwed cymdeithasol ac amgylcheddol gan wneud y mwyaf o fudd a gallu ymchwil.

## CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL

### CARBON
**2.1** Rydym yn cyflwyno rhaglen llwybr carbon gynhwysfawr ar y cyd ag UKRI a'n canolfannau. Rydym yn canolbwyntio ar reoli carbon yn effeithiol, deall ein heffaith ehangach a chyflawni prosiectau. Byddwn yn cyflawni newid diwylliannol hirdymor ac yn sbarduno arloesedd yn y modd rydym yn cyflawni ymchwil.

### AMGYLCHEDD FFISEGOL
**2.2** Byddwn yn sicrhau bod ein swyddogaethau gweithredol yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ansawdd aer, dŵr a thir. Drwy ein Cynllun Ymaddasu i Newid Hinsawdd (CCA) rydym yn deall ac yn addasu i risgiau hinsawdd.

### AMGYLCHEDD NATURIOL
**2.3** Rydym yn parhau i wneud dewisiadau gweithredol sy'n gwarchod, yn adfer ac yn gwella'r amgylchedd naturiol, yn gwella bioamrywiaeth ac yn sicrhau bioddiogelwch effeithiol i warchod yr amgylcheddau pegynol newydd rydym yn gweithredu ynddynt.

### DEFNYDD O ADNODDAU
**2.4** Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau ffisegol a digidol mewn modd effeithlon a chynaliadwy. Byddwn yn meithrin ymagwedd gyfrifol tuag at gyrchu nwyddau, defnyddio dŵr a rheoli gwastraff wrth hyrwyddo model yr economi gylchol.

## CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

### AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
**3.1** Byddwn yn gwreiddio ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ar bob lefel ac ym mhopeth a wnawn. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n grymuso pawb. Byddwn yn cefnogi cymuned amrywiol o ddeiliaid grantiau, gan gynnwys drwy arferion teg, ac yn cydnabod y gall gwahaniaeth ysgogi rhagoriaeth wyddonol ac arloesedd.

### SGILIAU A CHREU CYFLOGAETH
**3.2** Rydym yn cefnogi staff i fod y gorau gallant fod drwy hyfforddiant, dysgu a gweithgarwch datblygu gan greu cyfleoedd a chynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n cychwyn ar eu gyrfa. Rydym yn gwobrwyo arfer da a rhagoriaeth unigol a thimau ochr yn ochr â'n partneriaid UKRI.

### Y GYMUNED AC YMGYSYLLTU
**3.3** Rydym yn ariannu ac yn darparu gweithgareddau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n canlyniadau ymchwil cadarnhaol a chefnogi gweithgareddau cymunedol gwerthfawr.

### GWEITHLE IACH
**3.4** Rydym yn amddiffyn ac yn cefnogi iechyd a lles meddwl a chorfforol staff, gan sicrhau eu diogelwch yn y gwaith a darparu cymorth lles i weithwyr mewn angen.

## PENDERFYNIADAU STRATEGOL CYFRIFOL

### LLYWODRAETHU
**4.1** Rydym yn diogelu didueddrwydd NERC drwy systemau llywodraethu cadarn ac yn sicrhau ein bod yn dryloyw ac yn atebol drwy ein harferion busnes.

### MOESEG BUSNES
**4.2** Byddwn yn gwella prosesau i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau busnes teg ac ystyriol gan gydbwyso anghenion sefydliadol, amgylcheddol a chymdeithasol. Rydym yn ymwybodol y bydd ystod eang o ganlyniadau i'r penderfyniadau strategol a wnawn, a byddwn yn cymryd camau i ddeall hyn a lleihau niwed.

### PARTNERIAETHAU
**4.3** Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â busnesau, timau rhyngwladol a chymunedau ehangach sy'n rhannu ein gwerthoedd, yn ogystal â llywodraeth ganolog, i helpu i sicrhau newid cadarnhaol.

### AMODAU GWEITHIO
**4.4** Rydym yn sicrhau bod ein gweithlu'n cael ei gefnogi'n dda a bod llais pob gweithiwr yn cael ei werthfawrogi a'i glywed drwy hyrwyddo ac annog trafodaeth agored yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys drwy ymgysylltu ag undebau llafur a chynnull fforymau i staff rannu barn.